

Beth sydd angen i mi ei wneud?

I gael dyfarniad, caiff eich busnes ei asesu yn erbyn meini prawf penodol, sy'n seiliedig ar egwyddorion deiet cytbwys iach, fel defnyddio cyn lleied o fraster, siwgr a halen â phosibl, cynnig ystod eang o ffrwythau a llysiau a defnyddio carbohydradau startsiog mewn prif brydau. Cewch hefyd eich asesu ar farchnata a hyrwyddo'r opsiynau iach yn briodol.

Sut ydw i'n cymryd rhan?

Os hoffech gael Dyfarniad Dewis Iach, a'ch bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd ar y cyfan h.y. sgôr o 3, 4 neu 5 dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.



Cysylltwch â:

Allyson Jones
Tîm Gwella Iechyd
Diogelu'r Cyhoedd

Ffôn: 029 2087 1842
E-bost: Alljones@caerdydd.gov.uk



Y Gwobrau Dewisiach

Eisiau gwneud gwahaniaeth?



Beth yw'r cynllun?

Mae mynd allan i fwyta yn rhan bwysig o'n bywydau – mae dros draean o'r arian a gaiff ei wario ar fwyd a diod yng Nghymru ar fwyd a diod na chaiff ei fwyta adref, ac mae pobl yn chwilio mwy am ddewisiadau iach.

Datblygwyd y Dyfarniad Dewisiadau Iach i wobrwyo arlwywyr yng Nghymru benbaladr sy'n ei gwneud yn haws i'w cwsmeriaid ddewis bwydydd iach. Mae tair lefel iddo – Efydd, Arian ac Aur, gyda logo afal â hadau bach siâp calon.

Beth yw'r nodau?

Nod y Dyfarniad yw annog busnesau bwyd i gynnig dewisiadau iachach i gwsmeriaid drwy ddefnyddio arferion arlwyyo iachach, cynnig mwy o ffrwythau, llysiau a charbohydradau startsiog, yn ogystal â llai o fraster, yn enwedig braster dirlawn, siwgr a halen. Mae hefyd yn cydnabod darparu dewisiadau iach i blant, yn gwobrwyo hyfforddiant staff, a hyrwyddo a marchnata dewisiadau iachach.

Pam fod hyn yn bwysig?

Fe welwch yn y wasg neu ar y teledu y pryderon sydd gan bobl am heintiau sy'n ymwneud â deiet. Bellach, mae dros hanner pobl Cymru'n pwysu gormod neu'n ordew. Mae deiet yn cyfrannu at glefyd y galon a rhai mathau o ganser. Mae un o bob pedair marwolaeth yng Nghymru'n gysylltiedig â deiet. Gall arlwywyr wneud gwahaniaeth mawr i iechyd y genedl.

Pwy all wneud cais?

Gall pob safle sy'n arlwyyo i'r cyhoedd wneud cais am ddyfarniad.

Rhaid i'r safle gydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd i raddau helaeth h.y. sgôr o 3, 4 neu 5 dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

Pwy sy'n cynnal y dyfarniad?

Tîm Gwella Iechyd Cyngor Caerdydd sy'n asesu ac yn rheoli'r dyfarniad.

Beth yw'r manteision i mi?

Mae Dyfarniad Dewisiadau Iach o fudd i:

- Chi
- Eich Busnes
- Eich Cwsmeriaid

Gallech wneud cyfraniad enfawr at wella deiet ac iechyd eich cwsmeriaid drwy gynnig dewisiadau bwyd iachach.

Cewch eich cydnabod yn gyhoeddus am gael y dyfarniad, a gallai wella eich delwedd fel busnes cyfrifol sy'n rhoi ei gwsmeriaid yn gyntaf. Gallai roi mantais gystadleuol i chi, a gwella boddhad cwsmeriaid. Wrth i'r galw am ddewisiadau iachach gynyddu, mae gwerthiannau nifer o gynhyrchwyr a manwerthwyr sydd wedi cyflwyno dewisiadau iachach wedi codi.

